

Hen Gardiau Post yn y Gymraeg

Gan DAFYDD GUTO

Y GYMRAEG? Ie'n wir? Tybed mewn gwirionedd a oes 'na ddefnydd teilwng ac effeithiol yn cael ei wneud ohoni ar gardiau post a werthir yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn y byd ran hynny? I ateb y cwestiwn yn ei gyfanrwydd rhaid bwrw golwg yn ôl ar y blynyddoedd a fu, cyn troi at beth sydd ar gael; a dylid pwysleisio mai chwilio a wneir am garidau post sydd yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg o ran ymadrodd a disgrifiad.

Nid chwilio a wneir am enwau lleoedd yn y Gymraeg. Caniateir defnydd dwyieithog. Yr unig beth sy'n faen prawf ynddo'i hunan yw'r Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ar gerdyn post.

Fe ddysgir yn lled fuan ei bod hi'n dasg anodd a throm cribinio trwy holl flynyddoedd. Y broblem fwyaf yw ein methiant fel cenedl hyd yma i gynnwys gwybodaeth am gardiau post mewn catalog sy'n unigryw i Gymru. Deled y dydd.

Nid oes ar gael ychwaith hyd yn oed restr sy'n ymdrin yn uniongyrchol a thrylwyr â chardiau post sy'n adlewyrchu'r byd a'r bywyd Cymreig. Cyfyng yw'r defnydd - rhywbeth cyffelyb i ddryw bach yn boddi yng nghanol Llyn Llyncllys yw'r hyn sydd ar gael. Nid bod Cymru yn brin o gasglwyr cardiau post!

Bu inni yn ogystal unigolion a oedd yn argraffu cardiau post ar eu liwt eu hunain, ond daw dau beth i'r amlwg, sef diffyg defnyddio'r Gymraeg yn drylwyr ac effeithiol ar gardiau post - doedd hi ddim yn iaith digon masnachol yn ôl pob golwg! Ac yn anad dim byd arall, monopoli neu grafanc anferth y ffyrniau mawr, ochr arall i Glawdd Offa, ran fynychaf, ar y fasnach cardiau post; dylanwad, ysywaeth, sy'n dal i fodoli yn 1987!

SERCH hynny, nid yw pethau cynddrwg ag a feddylir. Y mae'n bosib yn 1987 taro ar gardiau post sy'n ddwyieithog, h.y. mae 'na ddefnydd o'r Gymraeg - diolch i weledigaeth sefydliadau fel yr Amgueddfa Genedlaethol, yr Amgueddfa Werin, ac ambell Archifdy yng Nghymru.

Yn wir, bu i Arthur Dixon gynhyrchu cerdyn post comic o'r cymoedd ac arno dafodiaith hyfryd Y Rhondda a Thonypanyd. Cynhyrchwyd cardiau post gan Dragon Publication Ltd., Llandeilo; golygfeydd o'r Eisteddfod

Genedlaethol ac yn y blaen. Un arall a fentrodd i'r maes creu lliwgar yw Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch, Capel Garmon - mae'r wybodaeth ar gefn pob cerdyn sy'n cynnwys golygfa yng Nghymru yn hen hen iaith y Nefoedd wrth reswm!

Yn ddiweddar, gwelodd Ffederasiwn Genedlaethol Sefydliad y Merched yng Nghymru, yn dda i gynhyrchu cardiau lliw ag arnynt wybodaeth yn y Gymraeg am y Wisg Gymreig.

Ceisio torri ar fonopoli'r ffyrniau mawrion a wnaeth Dafydd Hudgell, Llanystumdwy, drwy greu cardiau lleol eu golygfeydd ond cenedlaethol eu hapêl.


Ar lonydd ifanc wrth ei waith yw Dafydd ac fe wêl yn dda i ymgorffori Cymreictod yn ei waith. Rhydd le dyladwy i'r Gymraeg ar y cardiau a gynhyrchodd.

Yn hyn o beth fe welir newidiadau ym maes cynhyrchu

cardiau yng Nghymru. Mae digon o'i eisiau. Mae'n ddatblygiad i'w groesawu; yn ddatblygiad sy'n rhoi mwy o sgôp a difyrwrch pellach i'r cannoedd ar gannoedd o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg sy'n casglu yng Nghymru.

I gyd-fynd â'r erthygl hon paratowyd catalog (mae iddo fylchau amlwg hefyd!); catalog sy'n cynnwys enwau Sefydliadau a rhestr o gardiau post sy'n cynnwys defnydd o'r Gymraeg fel ymadrodd neu ddarn o wybodaeth.

Anfoner amlen A4 a stamp 40c dosbarth cyntaf, 30c ail ddosbarth i Dafydd Guto, 14 Stryd Fawr, Tremadog, Gwynedd LL49 9RD. Cofied gynnwys eich cyfeiriad yn llawn. Bydd y catalog sef un copi yn unig ar gael yn rhad ac am ddim. Yr unig amod? Eich bod yn aelod o Gymdeithas Bob Owen, h.y. yn derbyn Y Casglwr.



LLUNIAU CYMREIG RHIF B2 HEN FERMYDD CYMREIG - OLD WELSH FARNIS BLAENAU GAIO COPYRIGHT © J. D. O. 1977

I'ch
CYFARCH
ar
DDYDD
LLON
eich
PEN BLWYDD.

Rhyw air
o
gofion cywir
Yw hwn
gan gâr
o bell,
I dd'wedyd
"Llawer
eto"
Ar rheini'n
llawer
gwel.